Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Masnachu Teg
Argraffwyd yn y DU ar bapur a wnaed o 75% o wastraff ôl-ddefnydd a 25% mwydion ECF
Cod cynnyrch OFT518
Argraffiad 06/03 PUB 145/15,000
© Hawlfraint y Goron 2003

Golwg gyffredinol ar y Ddeddf Menter

Y darpariaethau ar gyfer cystadleuaeth a defnyddwyr

DEDDF MENTER 2002

Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Menter 2002 (y Ddeddf) ym mis Tachwedd 2002.

Cyhoeddwyd argraffiad cyntaf y llyfryn hwn ar adeg y Cydsyniad Brenhinol. Mae'r ail argraffiad hwn yn cynnwys cyfeiriadau at gyhoeddiadau gan y Swyddfa Masnachu Teg ers hynny. Daeth y darpariaethau a ddisgrifir yn y llyfryn hwn i rym ar 1 Ebrill a 20 Mehefin 2003.

Mae'r Ddeddf wedi gwneud nifer o ddiwygiadau arwyddocaol i'r modd y gweithredir y gyfraith ar gystadleuaeth a chyfraith defnyddwyr yn y Deyrnas Unedig. Mae'r darpariaethau newydd yn gweithio ochr yn ochr â Deddf Gystadleuaeth 1998 ac amryfal ddarnau o ddeddfwriaeth defnyddwyr, gan ddisodli Deddf Masnachu Teg 1973 i raddau helaeth.

Mae'r Ddeddf wedi sefydlu'r Swyddfa Masnachu Teg (SMT) fel corff corfforaethol, yn cymryd lle hen swydd statudol y Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Fasnachu Teg. Bydd y SMT yn gweithredu ac yn gorfodi'r mesurau cystadleuaeth a defnyddwyr newydd ar y cyd â'r Comisiwn Cystadleuaeth, y rheoleiddwyr sectorol, y Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth, Adrannau Safonau Masnach ac eraill.

Swyddfa Masnachu Teg
Fleetbank House
2-6 Salisbury Square
Llundain EC4Y 8JX
Ffôn 020 7211 8000
Ymholiadau ar y Ddeddf Menter 020 7211 8181 neu
e-bost enterpriseact.enquiries@SMT.gsi.gov.uk
Y We www.oft.gov.uk

Cynnwys

Pennod		Tudalen
1	Amcan y canllawiau hyn	2
2	Pwrpas a strwythur y Ddeddf	4
3	Y Swyddfa Masnachu Teg a'i swyddogaethau cyffredinol	6
4	Cydsoddiadau	9
5	Cyfeirio ymchwiliadau marchnad	14
6	Troseddoli cartelau	17
7	Gwahardd cyfarwyddwyr	20
8	Uwch-gwynion	22
9	Gorfodi cyfraith defnyddwyr	23
10	Trafod gwybodaeth	26
11	Apeliadau	29
12	Newidiadau i Ddeddf Cystadleuaeth 1998	32
13	Rhestr o'r byrfoddau a ddefnyddir yn y canllawiau hyn	33

1 Amcan y canllawiau hyn

1.1 Mae'r canllawiau hyn yn rhoi golwg gyffredinol ar brif ddarpariaethau Deddf Menter 2002 (y Ddeddf) sy'n ymwneud â chyfraith cystadleuaeth a gorfodi deddfwriaeth defnyddwyr, gan roi sylw arbennig i rôl y Swyddfa Masnachu Teg (SMT). Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer ansolfedd, na thrafodir yn y ddogfen hon nac mewn unrhyw gyhoeddiad arall gan y SMT.

1.2 Mae'r Ddeddf wedi disodli neu wedi newid deddfwriaeth yn ymwneud â strwythur a swyddogaethau'r SMT, rheoli cydsoddiad, ymchwilio i farchnadoedd, gorfodi deddfwriaeth defnyddwyr, apeliadau ar bwyntiau cyfraith cystadleuaeth, gweithdrefnau'r Comisiwn Cystadleuaeth (CC) a'r modd y bydd awdurdodau cyhoeddus yn ymdrin â gwybodaeth arbennig. Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno darpariaethau newydd ar gyfer troseddoli cartelau, gwahardd cyfarwyddwyr am dorri cyfraith cystadleuaeth, ac uwch-gwynion.

1.3 Daeth y darpariaethau ar gystadleuaeth a defnyddwyr i rym ar naill ai 1 Ebrill neu 20 Mehefin 2003, fel a ddisgrifir yn y canllawiau hyn. Mae manylion pellach am y darpariaethau cychwyn a nifer o ddogfennau ymgynghori perthnasol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (YG), wedi'u cyhoeddi ar wefan yr Adran Masnach a Diwydiant ar http://www.dti.gov.uk/ccp

1.4 Cyn dod â'r Ddeddf i rym, roedd y ddeddfwriaeth a oedd yn bodoli, yn enwedig Deddf Masnachu Teg 1973 (DMT73), yn parhau mewn grym. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau trosiannol fel y gall busnesau, defnyddwyr a'u cynghorwyr fod yn sicr ynghylch pa ddeddfwriaeth a threfniadaethau a fyddai'n berthnasol i ddigwyddiadau fel cydsoddiadau ac ymchwiliadau marchnad a ddigwyddodd oddeutu'r amser y daeth y Ddeddf i rym. Y gyfraith newydd yn unig a drafodir yn y canllawiau hyn.

1.5 Mae darpariaethau'r Ddeddf i raddau helaeth yn gyflenwol i ddarpariaethau Deddf Cystadleuaeth 1998 (DC98), sy'n parhau mewn grym gyda rhai mân newidiadau. Mae canllawiau ar DC98 ar gael ar wefan y SMT (http://www.oft.gov.uk). Gellir archebu copïau caled hefyd drwy'r wefan neu drwy ffonio 0870 60 60 321.

1.6 Nid yw'r canllawiau hyn yn honni bod yn ddatganiad cyfraith llawn nac ymrwymol. Bwriedir iddynt fod yn destun cyflwyniadol ac yn arweiniad at ffynonellau eraill o wybodaeth berthnasol. Nid yw'r canllawiau hyn yn ganllawiau neu gyngor neu wybodaeth y mae dyletswydd ar y SMT i'w cyhoeddi dan unrhyw adran o'r Ddeddf. Dylai unrhyw un sy'n ansicr

ynghylch sut y gallai'r Ddeddf effeithio arnynt geisio cyngor cyfreithiol.

1.7 Mae'r SMT ac eraill wedi cyhoeddi dogfennau sy'n rhoi mwy o fanylion ar feysydd penodol ac rydym wedi cynnwys cyfeiriadau at y rhain lle bo'n briodol. Mae'r rhestr gyfredol o lyfrynnau canllawiau'r Ddeddf Menter, yn cynnwys rhai drafftiau ymgynghori, i'w gweld yng nghefn y canllawiau hyn. Caiff y llyfrynnau canllawiau eu hadolygu a'u hailgyhoeddi o bryd i'w gilydd ac efallai y cyhoeddir rhai newydd. Mae'r rhestr ddiweddaraf o'n cyhoeddiadau bob amser ar gael ar ein gwefan ar http://www.oft.gov.uk/News/Publications/Leaflet+Ordering.htm

2 Pwrpas a strwythur y Ddeddf

Pwrpas

2.1 Mae'r Ddeddf yn gweithredu addewidion a wnaed ym maniffesto'r Llywodraeth ar gyfer etholiad 2001 i roi mwy o annibyniaeth i'r awdurdodau cystadlu, i ddiwygio'r deddfau methdaliad ac i fynd i'r afael ag arferion masnachu sy'n niweidio defnyddwyr.

2.2 Roedd papur y Llywodraeth *Productivity in the UK: Enterprise and the Productivity Challenge,* a gyhoeddwyd ym Mehefin 2001, yn amlinellu bwriad y Llywodraeth i ganolbwyntio ar fenter a chynhyrchiant fel conglfaen ei diwygiadau economaidd. Rhagflaenwyd y mesurau penodol yn y Ddeddf mewn tri Phapur Gwyn pellach:

- *Productivity and Enterprise: A World Class Competition Regime* (Cm 5233) a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2001
- *Productivity and Enterprise: Insolvency – A Second Chance* (Cm 5234) a gyhoeddwyd hefyd yng Ngorffennaf 2001, a
- *Modern Markets: Confident Consumers* (Cm 4410) a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 1999.

2.3 Ar adeg ysgrifennu hyn, mae'r dogfennau hyn i gyd i'w gweld ar wefan yr Adran Masnach a Diwydiant (http://www.dti.gov.uk) ac ar gael hefyd gan Wasg Ei Mawrhydi.

Strwythur

2.4 Mae'r Ddeddf wedi'i rhannu'n un rhan ar ddeg.

- **Rhan 1** sy'n sefydlu'r SMT fel corff corfforaethol ac yn amlinellu ei swyddogaethau cyffredinol, gan ddarparu ar gyfer trefniadau ar gyfer gwneud uwch-gwynion. Gynt, nid oedd y SMT ond yn bodoli fel cefnogaeth weinyddol i swydd statudol y Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Fasnachu Teg, ac nid fel endid cyfreithiol yn ei hawl ei hun.
- **Rhan 2** a sefydlodd y Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth (TAC) a darparu ar gyfer dwyn achosion ger ei fron. Corff annibynnol newydd yw'r TAC sydd wedi ymgymryd â swyddogaethau Tribiwnlys Apeliadau'r Comisiwn Cystadleuaeth yn ogystal â rhai swyddogaethau newydd.

- Mae **Rhan 3** yn darparu ar gyfer trefn reoli cydsoddiadau newydd, gan briodoli gwahanol gyfrifoldebau i'r SMT, y CC ac, mewn achosion eithriadol, i'r Ysgrifennydd Gwladol (YG).

- Mae **Rhan 4** yn darparu i achosion ymchwiliad marchnad gael eu cyfeirio gan y SMT, neu mewn achosion eithriadol gan Weinidogion, i'r CC, ac yn disgrifio sut y dylai'r CC benderfynu ac adrodd ar yr achosion hynny.

- Mae **Rhan 5** yn delio â'r CC ac yn amlinellu ei reolau trefn. Ni roddir manylion pellach yn y canllawiau hyn. Gellir cael gwybodaeth bellach ar wefan y CC ar http://www.competition-commission.org.uk

- Mae **Rhan 6** yn creu trosedd newydd i unigolion sy'n ymwneud â chartelau, ac yn darparu pwerau archwilio penodol i'r SMT.

- Mae **Rhan 7** yn delio â nifer o amrywiol ddarpariaethau cystadleuaeth, gan gynnwys pwer newydd i'r llys wahardd cyfarwyddwyr cwmnïau sy'n torri cyfraith cystadleuaeth mewn modd difrifol, ac ambell fân newid i DC98.

- Mae **Rhan 8** yn amlinellu gweithdrefnau newydd ar gyfer gorfodi deddfwriaeth defnyddwyr penodol a materion cysylltiedig.

- Mae **Rhan 9** yn darparu rheolau newydd dros ddatgelu rhai mathau arbennig o wybodaeth gan awdurdodau cyhoeddus.

- Mae **Rhan 10** yn newid cyfraith ansolfedd, ac ni chaiff ei hystyried ymhellach yn y canllawiau hyn. Gellir cael gwybodaeth ynghylch darpariaethau ansolfedd y Ddeddf yn http://www.insolvency.gov.uk/reform.htm

- Mae **Rhan 11** yn cynnwys darpariaethau atodol, megis sut y deuir â'r Ddeddf i rym ac ym mha diriogaethau yn y DU y mae'r Ddeddf yn weithredol. Materion technegol yw'r rhain i raddau helaeth sydd y tu hwnt i rychwant y canllawiau hyn.

3 Y Swyddfa Masnachu Teg a'i swyddogaethau cyffredinol

Y SMT newydd

3.1 Sefydlodd y Ddeddf y SMT ar sail statudol fel corff corfforaethol ar 1 Ebrill 2003. Dan yr hen ddeddf (DMT73) nid oedd y SMT yn bodoli fel endid cyfreithiol, dim ond fel cefnogaeth weinyddol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Fasnachu Teg. Dan y ddeddf newydd, diddymwyd swydd statudol y Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Fasnachu Teg a throsglwyddo'i swyddogaethau i'r SMT.

3.2 Mae'r SMT yn cynnwys Cadeirydd a Phrif Weithredwr, sef John Vickers ar hyn o bryd, ac o leiaf bedwar aelod arall, a benodir gan yr YG. Gyda'i gilydd, dyma fwrdd y SMT. Ar adeg ysgrifennu hyn roedd chwe aelod ar y bwrdd (Penny Boys, Allan Asher, Lord Blackwell, Christine Farnish, Richard Whish, Rosalind Wright). Wedyn bydd y SMT yn penodi staff eraill yn ôl y gofyn i gyflawni ei swyddogaethau. Mae staff presennol wedi trosglwyddo i'r SMT newydd er mwyn sicrhau dilyniant. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer penodi Prif Weithredwr o 1 Ebrill 2005.

3.3 Mae bwrdd y SMT yn rheoli ei drefniadaeth ei hun, gan gynnwys cworwm. Rhaid i'r SMT ymgynghori â'r YG ar ei weithdrefnau ar gyfer delio â gwrthdrawiad buddiannau, sydd wedi'u cyhoeddi (gweler isod). Yr YG fydd yn penderfynu ar dymor gwasanaeth aelodau'r SMT (yn cynnwys y Cadeirydd), ond ni chaiff tymor swydd fod yn fwy na phum mlynedd. Ni chyfyngir y Cadeirydd ac aelodau'r SMT i un tymor yn unig yn eu swydd.

3.4 Bydd bwrdd y SMT yn ymwneud yn helaeth â phenderfyniadau strategol ac ni fyddant fel arfer yn ymwneud ag achosion unigol. Am wybodaeth bellach am fwrdd y SMT a'i weithdrefnau ewch i http://www.oft.gov.uk/About/OFT+Board/default.htm

Cynllun blynyddol ac adroddiad blynyddol y SMT

3.5 Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol bellach i'r SMT gyhoeddi cynllun blynyddol yn cynnwys datganiad o'i phrif amcanion a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn. Bydd y cynllun hwn yn destun ymgynghoriad ac fe'i cyflwynir ger bron y Senedd. Cyhoeddwyd y cynllun blynyddol drafft cyntaf ar 3 Ebrill 2003 a disgwylir cyhoeddi'r fersiwn terfynol erbyn 30 Mehefin 2003.

3.6 Wedi diwedd pob blwyddyn ariannol, bydd y SMT yn rhoi adroddiad i'r YG ar ei gweithgareddau a'i pherfformiad drwy gydol y flwyddyn. Bydd yr adroddiad (yr 'Adroddiad Blynyddol') yn disgrifio penderfyniadau ac ymchwiliadau diweddar a datblygiadau perthnasol. Rhaid iddo hefyd gynnwys asesiad o berfformiad ac arferion y SMT a nodi i ba raddau y llwyddodd y SMT i gyflawni'i phrif flaenoriaethau ac amcanion.

Swyddogaethau cyffredinol y SMT

3.7 Mae swyddogaethau cyffredinol y SMT yn cynnwys y canlynol:

- cael, casglu a chadw llygad ar wybodaeth am faterion perthnasol i'r modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau. Cyflawnir y swyddogaeth hon er mwyn (ymysg pethau eraill) sicrhau fod gan y SMT ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniadau gwybodus ac i gyflawni ei swyddogaethau eraill yn effeithiol

- sicrhau fod y cyhoedd yn ymwybodol o'r ffyrdd y gall cystadleuaeth fod o fudd i gwsmeriaid a'r economi a rhoi gwybodaeth neu gyngor ynglŷn â'i swyddogaethau yn hyn o beth. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi deunyddiau addysgol a chynnal gweithgareddau addysgol

- darparu gwybodaeth a chyngor i weinidogion a chyrff cyhoeddus ar faterion yn ymwneud ag unrhyw rai o'i swyddogaethau, a

- hyrwyddo arferion da tuag at ddefnyddwyr, gan gynnwys annog defnyddio codau ymarfer defnyddwyr a chymeradwyo'r codau hynny. Rhoddir gwybodaeth bellach ar godau defnyddwyr ym mhennod 9 y canllawiau hyn.

Astudio'r farchnad

3.8 Un ffordd y bydd y SMT yn cyflawni ei swyddogaethau cyffredinol yw drwy astudio marchnadoedd sydd heb fod yn gweithio'n dda i ddefnyddwyr. Bydd yr Adran Marchnadoedd a Mentrau Polisi (MMP) yn cyflawni'r astudiaethau hyn. Mae'r rhain yn wahanol i'r ymchwiliadau marchnad a gyfeirir i'r CC fel a ddisgrifir ym mhennod 5 y canllawiau hyn.

3.9 Gall astudiaethau marchnadoedd yr Adran MMP gael sawl canlyniad gwahanol, yn cynnwys:

- gweithred orfodi gan y SMT dan DC98
- gweithred orfodi gan y SMT dan Ran 8 y Ddeddf (gweler adran 9)
- cyfeirio ymchwiliad marchnad i'r CC
- cynigion ar gyfer newidiadau i gyfreithiau, rheoliadau a hunan-reoleiddio
- cyhoeddi gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr, neu
- cadarnhau fod y farchnad dan sylw'n gwbl iach.

3.10 Bydd y SMT fel rheol yn cyhoeddi adroddiad i egluro canlyniad ei hastudiaethau a bydd bob amser yn cyhoeddi rhesymau os yw am gyfeirio ymchwiliad marchnad i'r CC.

4 Cydsoddiadau

4.1 Mae'r Ddeddf yn newid y fframwaith presennol ar gyfer rheoli cydsoddiadau a chaffaeliadau yn y DU, drwy ddisodli'r mwyafrif llethol o ddarpariaethau cydsoddiad DMT73. Dyma'r ddau newid mwyaf arwyddocaol:

- nid yr YG, yn gyffredinol, fydd yn gwneud penderfyniadau ar reoli cydsoddiadau. Gwneir y rhan fwyaf o benderfyniadau gan y SMT a'r CC fel awdurdodau cystadleuaeth arbenigol, annibynnol, ac

- ac eithrio yn yr achosion arbennig a amlinellir ym mharagraffau 4.8 i 4.11 isod, asesir cydsoddiadau yn erbyn prawf cystadleuaeth bur, yn hytrach na'r prawf budd cyhoeddus ehangach a ddefnyddid gynt. Yn gyffredinol, gwaherddir cydsoddiadau, neu mynnir rhwymedïau, os byddent yn arwain at leihau cystadleuaeth yn sylweddol mewn marchnad yn y DU.

Profion awdurdodaeth

4.2 Gall y SMT ymchwilio i gydsoddiadau sy'n cyflawni naill ai'r 'prawf trosiant' neu'r 'prawf cyfran o'r cyflenwad'. Cyflawnir y prawf trosiant os oes gan y cwmni targed drosiant yn y DU o dros £70 miliwn. Cyflawnir y prawf cyfran o'r cyflenwad os bydd y partïon sy'n cydsoddi gyda'i gilydd yn cyflenwi o leiaf 25 y cant o nwyddau neu wasanaethau o ddisgrifiad penodol, un ai yn y DU yn ei chyfanrwydd neu mewn rhan sylweddol ohoni. Dim ond os y bydd y gyfran o'r cyflenwad yn cynyddu o ganlyniad i'r cydsoddiad y cyflawnir y prawf hwn. Os bydd cydsoddiad yn ateb y profion ar gyfer asesiad gan y Comisiwn Ewropeaidd, ni fydd y SMT yn ymchwilio ac ni chaiff gyfeirio'r cydsoddiad[1].

4.3 Gall y SMT edrych ar gaffaeliadau cyfangwbl busnesau ac ar gaffaeliadau sy'n rhoi gradd lai o reolaeth dros weithrediad busnes, gan ddechrau o'r lefel lle caiff y prynwr 'ddylanwad perthnasol' dros y busnes targed.

[1] Oni bai fod yna faterion pwysig i'r DU ac y gweithredir darpariaethau Rheoliadau Cydsoddiadau'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer cyfeirio cydsoddiadau'n ôl o Frwsel ar gyfer ymchwiliad cenedlaethol.

Dyletswydd i gyfeirio

4.4 Rhaid i'r SMT ystyried a oes rhagolwg arwyddocaol y gellir disgwyl i'r cydsoddiad leihau cystadleuaeth yn sylweddol. Os cred y SMT y cyflawnir y prawf hwn neu y gellir ei gyflawni, yna rhaid iddi naill ai gyfeirio'r cydsoddiad at y CC neu, os yw'n briodol, geisio addewidion, yn lle cyfeiriad, gan y partïon sy'n cydsoddi i gywiro effeithiau gwael disgwyliedig y cydsoddi. Mae'r dyletswydd cyffredinol i gyfeirio'n amodol ar dri eithriad, lle mae gan y SMT ddewis i beidio â chyfeirio os nad yw'r cydsoddi wedi mynd yn ddigon pell i gyfiawnhau cyfeirio; os nad yw'r farchnad yn ddigon pwysig i gyfiawnhau cyfeirio; neu os oes manteision amlwg i gwsmeriaid sy'n drech na'r effaith wael ar gystadleuaeth.

4.5 Cyn penderfynu a ddylid cyfeirio cydsoddiad a gwblhawyd i'r CC, gall y SMT fynnu y gwneir ymgymeriadau cychwynnol neu gall wneud gorchmynion cychwynnol i atal integreiddio'r partïon. Gall y cyfryw orchmynion neu ymgymeriadau bara am gyhyd ag y bo'r cydsoddiad dan ymchwiliad.

Ymchwiliad a rhwymedïau'r CC

4.6 Os cyfeirir y cydsoddiad at y CC, bydd hwnnw'n cynnal ymchwiliad llawn i benderfynu a ydyw'r cydsoddiad wedi achosi, neu a ellir disgwyl iddo achosi, lleihad sylweddol yn y gystadleuaeth. Os felly, bydd y CC naill ai'n gwahardd y cydsoddiad neu'n gosod rhwymedïau, ar ffurf ymgymeriadau gan y partïon neu orchmynion. Bydd y CC yn cymryd i ystyriaeth unrhyw fanteision i'r cwsmer a ddeillia o'r cydsoddiad wrth osod rhwymedïau. Gellir gofyn i'r SMT helpu i negodi ymgymeriadau.

4.7 Bydd gan y SMT rôl hefyd o ran monitro a yw'r partïon yn cydymffurfio ag ymgymeriadau a gorchmynion yn dilyn cydsoddiad. Bydd yn gyfrifol am gadw cofrestr gyhoeddus o bob ymgymeriad a roddwyd a gorchymyn a wnaed, a fydd ar gael ar wefan y SMT.

Achosion arbennig

4.8 Gall cydsoddiadau sy'n ymwneud â chwmnïau cysylltiedig ag amddiffyn, papurau newydd neu gwmnïau dŵr fod yn destun gwahanol weithdrefnau a dadansoddiad. Rhoddir gwybodaeth bellach am y rheolau ynghylch yr achosion arbennig hyn yn ein canllawiau manylach ar gydsoddiadau (gweler isod). Dylai cwmnïau sy'n gweithredu yn y sectorau hyn fod yn ymwybodol fod y profion awdurdodaeth ar gyfer cydsoddiadau o'r fath yn wahanol hefyd, felly mae'n bosibl y bydd cydsoddiadau busnesau llai sydd heb gyflawni'r prawf trosiant £70m na'r prawf cyfran o'r cyflenwad yn dal i orfod cael eu harchwilio.

4.9 Os bydd cydsoddiad yn codi cwestiynau penodol o ran budd y cyhoedd, gall yr YG gyhoeddi rhybudd ymyrryd ac wedyn bydd yntau'n gwneud penderfyniadau, yn lle'r SMT a'r CC. Yn y cyd-destun hwnnw, bydd yr YG yn adolygu ystyriaethau budd cyhoeddus ochr yn ochr â'r cyngor ar faterion awdurdodaeth a chystadleuaeth a ddarperir gan y SMT a/neu'r CC. Ar hyn o bryd, diogelwch y wlad yw'r unig ystyriaeth ddiffiniedig o ran budd cyhoeddus y caniateir ymyrryd o'i herwydd, ond mae lle yn y Ddeddf i ychwanegu ystyriaethau budd cyhoeddus ychwanegol.

4.10 Mae'r Ddeddf yn cadw gweithdrefn arbennig DMT73 ar gyfer cydsoddi papurau newydd. Os cyflawnir y meini prawf ar gyfer dilyn y weithdrefn honno, rhaid cael cydsyniad yr YG ymlaen llaw cyn i'r cydsoddiad ddigwydd. Mae'r Mesur Cyfathrebu sy'n cael ei ystyried gan y Senedd ar hyn o bryd yn cynnig adolygu'r modd y rheolir cydsoddiadau papurau newydd er mwyn cysoni'r gweithdrefnau â'r rheini dan y Ddeddf. Fel gydag achosion sy'n codi cwestiynau ynghylch diogelwch y wlad, y bwriad yw y bydd yr YG yn gallu ymyrryd a gwneud penderfyniadau ar y cydsoddiad, gyda'r SMT a/neu'r CC yn darparu cyngor ar faterion awdurdodaeth a chystadleuaeth. Yn yr amgylchiadau hyn bydd gan yr YG gyfle i ystyried cwestiynau lluosedd neu amrywiaeth ac mae'r Mesur yn darparu i OFCOM, y corff rheoli cyfathrebu newydd, roi cyngor ar y materion hyn.

4.11 Daw darpariaethau'r Ddeddf ynglŷn â chydsoddiadau cwmnïau dŵr i rym ar ddyddiad sydd heb ei gyhoeddi eto. Tan hynny, bydd cydsoddiadau cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn destun cyfeirio gorfodol gan yr YG. Dan ddarpariaethau'r Ddeddf, os bydd dau gwmni dŵr yn cydsoddi, bydd yn ofynnol i'r SMT gyfeirio'r cydsoddiad i'r CC oni bai fod trosiant un (neu'r ddau) o'r cwmnïau dŵr yn llai na £10 miliwn. Bydd y CC yn ystyried a fydd y cydsoddiad yn effeithio'n andwyol ar allu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Wasanaethau Dŵr i reoleiddio'n effeithiol, drwy leihau nifer y cwmnïau y gellir cymharu eu perfformiad.

Amserlen

4.12 Mae'r amserlen statudol ar gyfer ymchwiliad y SMT fel arfer hyd at bedwar mis wedi i'r trafodiad fynd yn ddiamod, neu gael ei gyhoeddi. Yn ymarferol, bydd y SMT yn anelu at gwblhau ei hymchwiliad o fewn amserlenni gweinyddol byrrach.

4.13 Ar gyfer cynlluniau i gydsoddi, gall y partïon sy'n cydsoddi ddewis anfon 'rhybudd cydsoddiad' i'r SMT, ac os felly bydd yn rhaid i'r SMT fel arfer gwblhau ei hymchwiliadau o fewn 30 diwrnod gwaith, yn amodol ar estyniad posibl mewn rhai achosion penodol. Os dywed y partïon wrth y SMT am gydsoddiad cyn iddo ddigwydd, nid oes raid i'r SMT gyfeirio'r achos nes bydd y trefniadau wedi mynd rhagddynt yn ddigon pell.

4.14 Os cyfeirir y cydsoddiad at y CC, bydd gan y CC fel arfer uchafswm o 24 wythnos o ddyddiad y cyfeirio i gwblhau ei ymchwiliad ac – os yw'n canfod y bu effaith andwyol ar gystadleuaeth – i wneud ei benderfyniad ynghylch rhwymedïau. Bydd negodi a phenderfyniad terfynol ar delerau manwl y rhwymedïau gyda'r partïon fel arfer yn digwydd wedi i adroddiad y CC gael ei gyhoeddi.

Apeliadau

4.15 Mae'r Ddeddf yn cyflwyno hawl newydd i wneud cais am adolygu penderfyniadau ar gydsoddiadau a wnaed gan y SMT, y CC neu'r YG. Gall y partïon i'r cydsoddiad, neu bobl eraill y mae'r penderfyniad yn effeithio'n ddigonol arnynt, wneud cais i'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth (TAC) am adolygiad. Ar gyfer yr adolygiadau hyn, ni all y TAC roi ei benderfyniad ei hun i ddisodli'r penderfyniad ar deilyngdod yr achos, ond gall adolygu rhesymoldeb, cyfreithlondeb a thegwch y penderfyniad, a mynnu, os oes angen, fod y SMT, y CC neu'r YG yn ei ailystyried.

Gwybodaeth bellach

4.16 Ceir manylion pellach am y drefn reoli cydsoddiadau newydd yng nghyhoeddiadau'r SMT *Mergers – substantive assessment guidance*, OFT516, a *Mergers – procedural guidance*, OFT526, a gyhoeddwyd ill dau ym Mai 2003.

5 Cyfeirio ymchwiliadau marchnad

5.1 Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer system o ymchwiliadau marchnad gan y CC. Pwrpas yr ymchwiliadau hyn yw ymholi i farchnadoedd lle'r ymddengys fod strwythur y farchnad neu ymddygiad cyflenwyr neu gwsmeriaid yn niweidio cystadleuaeth.

5.2 Mae'r broses o gyfeirio'r ymchwiliadau marchnad hyn yn cymryd lle'r ymholiadau monopoli presennol dan DMT73, ac mae'r Ddeddf wedi diddymu'r rhannau o DMT73 sy'n cyfeirio at yr ymholiadau hynny.

Cyfeirio

5.3 Gall y SMT gyfeirio ymchwiliadau marchnad i'r CC. Gall y rheoleiddwyr sectorol canlynol hefyd gyfeirio ymchwiliadau marchnad mewn perthynas â'u sectorau dynodedig:

- Cyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu
- Awdurdod y Marchnadoedd Nwy a Thrydan
- Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Dŵr
- Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyflenwad Trydan Gogledd Iwerddon
- Rheoleiddiwr y Rheilffyrdd
- Cyfarwyddwr Cyffredinol Nwy Gogledd Iwerddon; a'r
- Awdurdod Hedfan Sifil.

Mae'r darpariaethau a ddisgrifir yng ngweddill y bennod hon yn ymwneud ag achosion a gyfeirir gan reoleiddwyr sector yn yr un modd ag achosion a gyfeirir gan y SMT.

5.4 Wrth gyfeirio achos, rhaid i'r SMT fod ag achos rhesymol dros amau fod un neu ragor o nodweddion marchnad yn atal, yn cyfyngu neu'n llurgunio cystadleuaeth mewn perthynas â chyflenwi neu gaffael nwyddau neu wasanaethau yn y DU (neu ran o'r DU).

5.5 Mae gallu neilltuedig i Weinidogion gyfeirio marchnadoedd at y CC mewn rhai amgylchiadau lle nad yw'r Gweinidog yn fodlon gyda phenderfyniad gan y SMT i beidio â chyfeirio. Gellir cyfeirio hefyd lle nad yw Gweinidogion yn fodlon y daw'r SMT i benderfyniad ar gyfeirio o fewn amser rhesymol.

5.6 Gall y SMT dderbyn ymgymeriadau yn lle cyfeiriad gan y cyfryw bersonau ag a fo'n briodol yn ei barn hi, er mwyn unioni unrhyw effeithiau andwyol ar gystadleuaeth (neu'r effeithiau niweidiol i gwsmeriaid a ddaw yn sgîl hynny) a fyddai fel arall yn ffurfio testun cyfeirio.

5.7 Os yw'r SMT yn cyfeirio achos, neu'n derbyn ymgymeriadau, rhaid iddi gyhoeddi ei rhesymau dros wneud hynny.

Ymchwiliad a rhwymedïau'r CC

5.8 Bydd y CC yn cynnal ymchwiliad manwl i benderfynu a oes unrhyw nodwedd yn y farchnad (neu'r marchnadoedd) a gyfeiriwyd sy'n atal, yn cyfyngu neu'n llurgunio cystadleuaeth mewn perthynas â chyflenwi nwyddau neu wasanaethau yn y DU (neu ran o'r DU). Os gwelir effaith niweidiol o'r fath ar gystadleuaeth, rhaid i'r CC benderfynu beth i'w wneud i gywiro'r effaith andwyol a/neu unrhyw effaith niweidiol i gwsmeriaid a geir yn ei sgîl, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw fuddiannau perthnasol i'r cwsmeriaid. Gall rhwymedïau fod ar ffurf ymgymeriadau neu orchmynion.

5.9 Dwy flynedd yw'r cyfnod hwyaf a ganiateir ar gyfer ymchwiliad y CC.

Achosion budd cyhoeddus

5.10 Gall yr YG ymyrryd mewn achosion lle ceir ystyriaethau budd cyhoeddus penodol (diogelwch y wlad yn unig ar hyn o bryd) drwy roi rhybudd ymyrryd. Gellir cyflwyno rhybuddion ymyrryd i'r CC o fewn pedwar mis i gyfeirio achos ato, neu at y SMT, os yw'n ystyried derbyn ymgymeriadau yn lle cyfeiriad.

5.11 Lle bo rhybudd ymyrryd wedi'i gyflwyno, bydd y CC yn penderfynu a gafwyd effaith andwyol ar gystadleuaeth yn y farchnad a pha rwymedïau a fyddai'n briodol, ac yn adrodd i'r YG. Os penderfyna'r YG fod ystyriaeth budd cyhoeddus yn berthnasol i'r rhwymedïau a gynigir, bydd yr YG yn gweithredu, gan gymryd hynny i ystyriaeth. Os penderfyna'r YG nad oes yr un ystyriaeth budd cyhoeddus yn berthnasol, aiff y mater yn ôl i'r CC i weithredu arno.

Apeliadau

5.12 Mae'r Ddeddf yn cyflwyno hawl newydd i wneud cais am adolygu penderfyniadau a wnaed gan y SMT, y CC neu'r YG yng nghyswllt cyfeirio ymchwiliadau marchnad. Fel dan y drefn ar gyfer cydsoddiadau, gall pobl yr effeithir arnynt ddigon gan y penderfyniad wneud cais i'r TAC am adolygiad o'r penderfyniad. Ar gyfer yr adolygiadau hyn, ni all y TAC roi ei benderfyniad ei hun i ddisodli'r penderfyniad ar deilyngdod yr achos, ond gall adolygu cyfreithlondeb a thegwch y penderfyniad, a mynnu, os oes angen, fod y SMT, y CC neu'r YG yn ei ailystyried.

Gwybodaeth bellach

5.13 Ceir manylion pellach am y ffactorau y bydd y SMT yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cyfeirio, a'r gweithdrefnau a ddilynir, yn *Market investigation references*, OFT511, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2003. Mae'r SMT yn disgwyl cyhoeddi canllawiau pellach ar weithdrefnau mewn astudiaethau marchnad, uwch-gwynion ac yng nghyswllt cyfeirio ymchwiliadau marchnad yn haf 2003.

6 Troseddoli cartelau

6.1 Mae'r Ddeddf yn cyflwyno trosedd i unigolion sy'n ymwneud yn anonest â chytundebau cartél. Mae'r trosedd cartél newydd yn weithredol ochr yn ochr â'r drefn bresennol sy'n gosod cosbau sifil ar ymgymeriadau[2] sy'n torri gwaharddiad DC98 ar gytundebau gwrth-gystadleuol. Gellir cael gwybodaeth bellach am waharddiad DC98 yng nghanllawiau'r SMT *The Chapter I Prohibition*, OFT401, a gyhoeddwyd ym Mawrth 1999.

6.2 Mae'r trosedd yn arf i atal unigolion rhag cymryd rhan mewn gweithgaredd cartél, yn ychwanegol at yr atalfa a ddarperir drwy fygwth dirwyo am yr ymgymeriadau dan sylw.

Y trosedd

6.3 Mae unigolyn yn agored i'w (h)erlyn am drosedd os cytuna yn anonest gydag un neu ragor o bobl eraill y bydd ymgymeriadau'n ymwneud ag un neu ragor o'r gweithgareddau cartél gwaharddedig, sef:

- gosod prisiau
- cyfyngu cyflenwad neu gynhyrchiad
- rhannu marchnad, a
- rigio bidiau.

6.4 Bydd y trosedd wedi'i gyflawni dim ond os yw'r unigolyn yn gweithredu'n anonest, cysyniad sy'n ddealledig iawn mewn cyfraith trosedd. Bydd y trosedd wedi'i gyflawni boed yr ymgymeriadau wedi gweithredu mewn gwirionedd ar y cytundeb a wnaed ai peidio, a heb ystyried a oes gan yr unigolion yr awdurdod i weithredu ar ran yr ymgymeriad ar adeg y cytundeb.

6.5 Nid yw'r trosedd ond yn berthnasol i gytundebau rhwng ymgymeriadau ar yr un lefel yn y gadwyn gyflenwi, a adwaenir fel cytundebau llorweddol. Ni fydd cytundebau fertigol yn gynwysedig o fewn cwmpas y trosedd.

6.6 Os gwneir y cytundeb y tu allan i'r DU, dim ond lle cymerwyd rhyw gam i weithredu'r cytundeb yn y DU y gellir dwyn achos.

---

[2] Mae 'Ymgymeriad' yn cynnwys unrhyw berson cyfreithiol neu naturiol sy'n gallu cyflawni gweithgareddau masnachol neu economaidd mewn perthynas â nwyddau neu wasanaethau, beth bynnag fo'i statws cyfreithiol. Mae'n cynnwys cwmnïau, busnesau, partneriaethau, unigolion yn gweithredu fel unig fasnachwyr, cymdeithasau masnach a sefydliadau di-elw. Fel arfer trinnir rhiant-gwmni a'i is-gwmnïau fel un ymgymeriad os gweithredant fel un uned economaidd, yn dibynnu ar ffeithiau pob achos.

Cosb ac erlyn

6.7 Gellir profi trosedd cartél naill ai mewn llys ynadon (treial diannod) neu ger bron rheithgor (treial ar dditiad). Ger bron yr ynadon, gall y sawl a gafwyd yn euog o'r trosedd gael tymor chwe mis o garchar a/neu ddirwy hyd at yr uchafswm statudol. O'i gael yn euog ar dditiad, gall troseddwr gael hyd at bum mlynedd o garchar a/neu ddirwy ddigyfyngiad.

6.8 Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ymgymerir ag erlyniadau yn gyffredinol gan y Swyddfa Twyll Difrifol (STD), er fod gan y SMT hithau'r hawl i erlyn. Dim ond gyda chydsyniad y SMT y gellir dwyn erlyniad preifat. Yn yr Alban, yr Arglwydd-Adfocad fydd yn erlyn.

Llythyrau dim gweithredu

6.9 Mae gan y SMT y grym i gyhoeddi rhybuddion ysgrifenedig yn cadarnhau nad erlynir unigolyn penodol am y trosedd os cyflawnir amodau arbennig[3]. Rhoddir y 'llythyrau dim gweithredu' hyn i unigolion sydd wedi cymryd rhan mewn cartél ond sy'n bodloni'r amodau ar gyfer derbyn llythyr dim gweithredu, gan gynnwys rhoi manylion am weithgaredd y cartél i'r SMT a chydweithredu drwy gydol yr ymchwiliad.

6.10 Ceir gwybodaeth bellach am yr amodau a'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno llythyrau dim gweithredu yn *The cartel offence: Guidance on the issue of no-action letters for individuals*, OFT513, a gyhoeddwyd yn Ebrill 2003.

[3] Mae llythyrau dim gweithredu yn atal dwyn erlyniad yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ni ellir gwarantu imiwnedd rhag erlyniad yn yr Alban, ond adroddir am gydweithrediad ag ymchwiliad i gartél i'r Arglwydd-Adfocad, a fydd yn cymryd y cyfryw gydweithrediad i ystyriaeth.

Pwerau ymchwilio'r SMT

6.11 Er mwyn ymchwilio i'r trosedd cartél, mae'r Ddeddf yn darparu nifer o bwerau newydd i'r SMT, gan gynnwys y canlynol:

- pwer i orfodi pobl i ateb cwestiynau neu fel arall ddarparu gwybodaeth neu ddogfennau perthnasol i'r ymchwiliad. Gall y pwer hwn fod dros bobl sydd dan ymchwiliad, neu bobl eraill y mae gan y SMT reswm i gredu fod ganddynt wybodaeth berthnasol. Caiff pobl wrthod datgelu i ymchwilwyr wybodaeth sydd wedi'i warchod gan fraint broffesiynol gyfreithiol

- pwer i fynd i adeiladau dan warant a chymryd meddiant ar ddogfennau perthnasol, gan gynnwys allbrintiau o ddogfennau a gedwir mewn ffurf electronig. Gellir gofyn am esboniadau o ddogfennau neu am ddatgelu ble maent hefyd

- pwerau gwyliadwriaeth, yn unol â Deddf Rheoli Pwerau Ymchwilio 2000.

6.12 Gall pobl sy'n llesteirio ymchwiliadau fod yn cyflawni trosedd eu hunain:

- gall methiant direswm i gydymffurfio â gofynion i ateb cwestiynau neu ddarparu gwybodaeth neu ddogfennau arwain at gosbau o hyd at chwe mis o garchar a/neu ddirwy

- gall gwneud datganiadau anwir neu gamarweiniol arwain at hyd at ddwy flynedd o garchar a/neu ddirwy

- gall dinistrio, cuddio neu ffalsio dogfennau perthnasol i ymchwiliad arwain at hyd at bum mlynedd o garchar a/neu ddirwy.

6.13 Mae manylion pellach am bwerau ymchwilio'r SMT yng nghyswllt y trosedd cartél i'w cael yn *Powers for investigating criminal cartels*, OFT505, drafft ymgynghorol a gyhoeddwyd yn Ebrill 2003.

7 Gwahardd cyfarwyddwyr

7.1 Mae'r Ddeddf yn newid Deddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986 (DGCC86) i roi pwer i'r SMT wneud cais i'r llys am orchmynion i wahardd cyfarwyddwyr cwmnïau sydd wedi torri cyfraith cystadleuaeth. Gelwir y gorchmynion hyn yn Orchmynion Gwahardd Cystadleuaeth (GGC).

7.2 Gall y rheoleiddwyr sector canlynol hefyd wneud cais am GGC mewn perthynas â'u sectorau penodol:

- Cyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu
- Awdurdod y Marchnadoedd Nwy a Thrydan
- Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Dŵr
- Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyflenwad Trydan Gogledd Iwerddon
- Rheoleiddiwr y Rheilffyrdd
- Cyfarwyddwr Cyffredinol Nwy Gogledd Iwerddon, a'r
- Awdurdod Hedfan Sifil.

Mae'r gweithdrefnau a ddisgrifir yng ngweddill y bennod hon yn berthnasol i geisiadau gan reoleiddwyr sector fel y maent yn berthnasol i geisiadau gan y SMT.

7.3 Rhaid i'r llys wneud GGC yn erbyn person os ydyw'n fodlon:

(a) fod ymgymeriad sydd yn gwmni y mae'r person hwnnw'n gyfarwyddwr arno yn torri cyfraith cystadleuaeth, a

(b) bod y llys o'r farn fod ymddygiad y person hwnnw fel cyfarwyddwr yn golygu ei fod yn anaddas i ymwneud â rheolaeth cwmni. Gall ymddygiad gynnwys peidio â gwneud rhywbeth.

7.4 I'r dibenion hyn, ystyr 'torri cyfraith cystadleuaeth' yw torri unrhyw un o'r canlynol:

- gwaharddiad Pennod I DC98
- Erthygl 81 Cytundeb CE

  (y ddau'n ymwneud â chytundebau gwrth-gystadleuol)

- gwaharddiad Pennod II DC98
- Erthygl 82 Cytundeb CE

  (y ddau'n ymwneud â chamddefnyddio safle dominyddol)

7.5 Rhaid gwneud ceisiadau am GGC i'r Uchel Lys neu, yn yr Alban, i'r Llys Sesiwn. Cyn gwneud cais am GGC yn erbyn person, bydd y SMT yn rhoi rhybudd i'r person hwnnw neu honno ac yn rhoi cyfle iddo/iddi gyflwyno'i (h)achos.

7.6 Wrth benderfynu a yw ymddygiad y cyfarwyddwr yn golygu ei fod/bod yn anaddas i ymwneud â rheolaeth cwmni, rhaid i'r llys ystyried a gyfrannodd y cyfarwyddwr at y tor cyfraith, a fethodd â chymryd camau i'w atal neu a ddylsai fod wedi gwybod fod yr ymddygiad yn torri cyfraith cystadleuaeth. Gall y llys hefyd ystyried ei (h)ymddygiad fel cyfarwyddwr cwmni yng nghyswllt unrhyw achos arall o dorri cyfraith cystadleuaeth.

7.7 Y cyfnod gwahardd mwyaf a ganiateir dan GGC yw 15 mlynedd. Yn ystod y cyfnod pryd y mae person yn destun GGC, mae'n drosedd i'r person hwnnw fod yn gyfarwyddwr cwmni neu ymgymryd â rolau penodol eraill cysylltiedig â rheoli cwmni.

7.8 Yn lle gwneud cais am GGC, gall y SMT dderbyn Ymgymeriad Gwahardd Cystadlu (YGC) gan berson. Mae i YGC yr un effaith â GGC, ond mae'n ymrwymiad a roddir i'r SMT gan y person dan sylw, yn hytrach na gorchymyn gan y llys.

7.9 Rhoddir manylion pellach am y ffactorau a fydd yn penderfynu a fydd y SMT yn gwneud cais am GGC, ynteu'n derbyn YGC, a'r gweithdrefnau perthnasol, yn y canllawiau *Competition Disqualification Orders*, OFT510, a gyhoeddwyd ym Mai 2003.

8 Uwch-gwynion

8.1 Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ddigamsyniol i gyrff defnyddwyr dynodedig wneud 'uwch-gwynion', lle ceir nodweddion marchnad a all fod yn niweidio defnyddwyr i raddau allweddol.

8.2 Rhaid i uwch-gwynion ymwneud ag un neu ragor o nodweddion marchnad yn ei chyfanrwydd. Nid ymddygiad penodol busnesau unigol fydd hyn fel rheol. Ymhlith y nodweddion marchnad perthnasol a allai achosi cwyn mae strwythur y farchnad neu ymddygiad cyffredinol cwmnïau sy'n gweithredu yn y farchnad.

8.3 Bydd yr YG yn dynodi pa gyrff sy'n gymwys i wneud uwch-gwynion. Gall yr YG ddynodi unrhyw gorff sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr o unrhyw fath ac sy'n cwrdd â meini prawf eraill a gyhoeddwyd gan yr YG. Gweler http://www.dti.gov.uk/enterpriseact/pdfs/superguide.pdf. Bydd ceisiadau gan gyrff defnyddwyr yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio a rhoi sylwadau arnynt cyn y gwneir penderfyniadau ynghylch dynodiad.

8.4 Mae gan y SMT hyd at 91 diwrnod i ymateb i uwch-gwyn. Bydd yr ymateb yn datgan a ydyw'r SMT wedi penderfynu gweithredu, ac os ydyw, beth y bwriada ei wneud. Nid yw'r Ddeddf yn cyfyngu'r mathau o weithredu y gall y SMT eu dilyn, felly gellir defnyddio unrhyw bwerau eraill sydd ganddi. Gall y canlyniadau gynnwys ymchwiliad i'r farchnad gan y SMT, gweithred orfodi dan DC98, argymell newidiadau i'r ddeddfwriaeth, neu gyfeirio'r farchnad at y CC am ymchwiliad pellach. Bydd y SMT yn cyhoeddi ei ymateb, gan roi rhesymau dros y ffordd y mae'n bwriadu gweithredu.

8.5 Gellir gwneud uwch-gwynion hefyd i reoleiddwyr sector mewn perthynas â marchnadoedd arbennig. Bydd ganddynt hwy ddyletswydd i ystyried uwch-gwynion o 20 Mehefin 2003 pan ddechreua'r darpariaethau uwch-gwynion.

Gwybodaeth bellach

8.6 Rhoddir gwybodaeth bellach ar uwch-gwynion, yn cynnwys cyngor ar baratoi achos rhesymedig a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol, yn y canllawiau *Super-complaints: guidance for designated consumer bodies*, OFT504, drafft ymgynghorol a gyhoeddwyd yn Awst 2002.

9 Gorfodi cyfraith defnyddwyr

9.1 Mae'r Ddeddf wedi darparu ar gyfer gorfodi cyfraith defnyddwyr penodol drwy gyfrwng gorchmynion llys, a elwir yn Orchmynion Gorfodi, yn erbyn busnesau sy'n torri'r ddeddfwriaeth honno. Mae'r drefn orfodi newydd yn seiliedig ar Reoliadau Gorchmynion Stopiwch Nawr (RhGSN) ac mae'n disodli'r Rheoliadau hynny a Rhan III DMT73.

9.2 Gellir dwyn achos gorfodi yn erbyn 'troseddau Cymunedol' neu 'droseddau domestig'. Troseddau Cymunedol yw achosion lle torrir cyfreithiau'r DU sy'n rhoi effaith i nifer o Gyfarwyddebau penodol gan y Gymuned Ewropeaidd (e.e. deddfau penodol ar gredyd defnyddwyr, gwyliau pecyn, a thelerau annheg yng nghontractau defnyddwyr) lle mae'r trosedd yn niweidio cyd-fuddiannau defnyddwyr. Troseddau domestig yw achosion lle torrir cyfreithiau'r DU neu gontractau o fath a bennir gan yr YG, a hynny yng nghwrs busnes, gan niweidio cyd-fuddiannau defnyddwyr yn y DU. Mae'r rhestr o ddeddfwriaeth benodedig wedi'i chyhoeddi yn http://www.dti.gov.uk/enterpriseact/pdfs/sidomesin.pdf .

Gorfodwyr

9.3 Mae gan y SMT ac adrannau safonau masnach bwerau i orfodi yng nghyswllt pob math o drosedd. Gall yr YG hefyd ddynodi rheoleiddwyr sector a chyrff gwarchod defnyddwyr yn orfodwyr yng nghyswllt pob trosedd neu amrediad cyfyngedig o droseddau. Mae amryfal ddarpariaethau'n rhoi rôl gydgysylltu i'r SMT i sicrhau fod y corff mwyaf priodol yn gweithredu ymhob achos.

Gweithdrefn

9.4 Cyn gwneud cais am Orchymyn Gorfodi, rhaid i'r SMT ymgynghori â'r busnes sy'n torri'r ddeddfwriaeth gwarchod defnyddwyr, er mwyn ceisio atal y trosedd heb fod angen mynd i'r llys. Gall y SMT benderfynu derbyn addewidion gan y busnes y gwnaiff roi'r gorau i'r ymddygiad tramgwyddus. Wedi cyfnod ymgynghori o bythefnos, os na wnaiff y busnes roi addewidion, gall y SMT wneud cais am Orchymyn Gorfodi i'r Uchel Lys neu'r Llys Sirol (neu Lys Sesiwn neu Siryf yn yr Alban).

9.5 Gall y llys orchymyn y busnes i roi'r gorau i'r ymddygiad tramgwyddus, ac i beidio â'i wneud eto. Mae'r gorchymyn hefyd yn atal person rhag troseddu yn yr un modd drwy unrhyw fusnes arall na gweithredu fel swyddog cwmni (er enghraifft, cyfarwyddwr) a chaniatáu i'r cwmni weithredu yn yr un modd tramgwyddus. Fel arall, gall y llys dderbyn addewidion y daw'r troseddu i ben. Os yw'r person wedi torri addewidion a roddodd i'r SMT, bydd y llys yn cymryd hynny i ystyriaeth.

9.6 Mewn achosion brys, gellir gwneud gorchmynion interim, ac yn yr achosion hynny caiff y cyfnod ymgynghori cyn gweithredu ei fyrhau i un wythnos[4]. Bydd cais interim yn para hyd nes bydd y llys wedi gwrando cais am orchymyn gorfodi llawn.

9.7 Os bydd person yn torri'r gorchymyn llys neu addewidion a roddwyd i'r llys drwy ailadrodd y trosedd, bydd yn dirmygu'r llys a gall wynebu dirwy a/neu hyd at ddwy flynedd o garchar.

9.8 Er mwyn gweithredu'r swyddogaethau hyn yn effeithiol, mae gan y SMT y pwer i fynnu gwybodaeth gan unrhyw berson drwy gyfrwng rhybudd ysgrifenedig. Os na fydd y person yn cydymffurfio â'r rhybudd, gellir gwneud cais i'r llys am orchymyn.

9.9 Gellir cael manylion pellach ynghylch gorfodi deddfwriaeth defnyddwyr, gan gynnwys yr egwyddorion y bydd y SMT yn eu dilyn wrth benderfynu pa bryd i weithredu, yn y canllawiau *Enforcement of consumer protection legislation*, OFT512, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2003.

Hyrwyddo codau ymarfer defnyddwyr

9.10 Mae'r Ddeddf yn nodi'n amlwg mai un o swyddogaethau allweddol y SMT yw hyrwyddo arferion da mewn gweithgareddau a all effeithio ar fuddiannau defnyddwyr. Un o'r ffyrdd y gall y SMT wneud hyn yw drwy roi ei sêl bendith i (neu gymryd ei sêl bendith oddi wrth) godau ymarfer defnyddwyr.

9.11 Mae cod ymarfer yn gymwys i'w gymeradwyo gan y SMT os bwriedir iddo reoleiddio ymddygiad busnesau sy'n cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i ddefnyddwyr, gyda golwg ar ddiogelu neu hyrwyddo buddiannau defnyddwyr.

[4] Oni bai fod angen gweithredu ar gymaint o frys fel na ellir rhoi rhybudd. Yn yr achos hwnnw, os mai gorfodwr arall sy'n gwneud y cais, rhaid i'r SMT awdurdodi ei wneud heb rybudd.

9.12 Gall corff sy'n gweinyddu cod defnyddwyr gwirfoddol ac sy'n gallu dylanwadu a chodi safonau o fewn ei sector, megis cymdeithas fasnach, wneud cais am gael cymeradwyaeth i'w god. 'Noddwr cod' yw'r enw ar gorff o'r fath.

9.13 Dan y Ddeddf mae'n ofynnol i'r SMT osod meini prawf ar gyfer cymeradwyo codau, a chaniateir iddi ddefnyddio symbol swyddogol i nodi pa godau a dderbyniodd gymeradwyaeth y SMT.

9.14 Mae'r SMT wedi trefnu gweithdrefn dau gam ar gyfer ei threfn gymeradwyo. Yn y cam cyntaf, bydd y SMT yn annog noddwyr cod i ddatblygu codau sy'n cwrdd â'r meini prawf craidd cyhoeddedig. Yn yr ail gam, bydd angen i noddwyr codau ddarparu tystiolaeth fod y cod yn gwireddu'r addewidion a wnaed ar y cychwyn a'i fod yn gweithio er budd defnyddwyr. Bydd y SMT yn cymeradwyo ac yn hyrwyddo'r cod unwaith y bydd yn fodlon fod y gofyniad hwn wedi'i gyflawni.

9.15 Mae mwy o wybodaeth ar godau ymarfer defnyddwyr ar gael yn *Core criteria for consumer codes of practice – guidance for those drawing up codes of practice*, OFT352, a gyhoeddwyd ym Mai 2002; a *The SMT's Consumer codes of practice regime*, OFT631, a gyhoeddwyd yn Chwefror 2003.

10 Trafod gwybodaeth

10.1 Mae'r Ddeddf yn amlinellu gofynion newydd ar gyfer gwarchod gwybodaeth benodol ac yn pennu'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys y SMT, ddatgelu gwybodaeth o'r fath. Mae'r darpariaethau'n berthnasol i wybodaeth a gasglwyd i ddibenion swyddogaethau cystadleuaeth, swyddogaethau defnyddwyr neu swyddogaethau cyffredinol y SMT dan y Ddeddf a than ddeddfwriaeth arall benodedig ym maes cystadleuaeth a gwarchod defnyddwyr. Mae'r darpariaethau'n berthnasol boed yr wybodaeth a gafwyd yn ymwneud â materion unigolion neu ymgymeriadau.

10.2 Ceir cyfyngiad cyffredinol ar ddatgelu gwybodaeth yn ystod oes yr unigolyn neu yn ystod bodolaeth yr ymgymeriad oni fo'r datgeliad hwnnw o fewn un o'r adwyon a ganiateir neu fod yr wybodaeth eisoes wedi'i chyhoeddi.

Datgeliadau a ganiateir

10.3 Ni chaiff awdurdod cyhoeddus sy'n dal y cyfryw wybodaeth ddim ond ei datgelu yn yr amgylchiadau canlynol:

- gwneir y datgeliad gyda chydsyniad yr unigolyn neu'r ymgymeriad y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddynt ac, os yw'n wahanol, darparwr yr wybodaeth (os yw'r awdurdod yn gwybod pwy yw'r darparwr)

- mae'n rhaid datgelu er mwyn cyflawni dyletswydd i'r Gymuned Ewropeaidd

- gwneir y datgeliad i hwyluso arfer swyddogaethau statudol yr awdurdod sy'n datgelu. Os na ddarperir fod gwybodaeth a ddatgelir i'r pwrpas hwn ar gael i'r cyhoedd, mae cyfyngiadau i atal y sawl sy'n derbyn yr wybodaeth rhag datgelu mwy

- gwneir y datgeliad i awdurdod cyhoeddus arall i hwyluso arfer swyddogaethau statudol yr awdurdod sy'n derbyn. Ni cheir defnyddio gwybodaeth a ddatgelir fel hyn (sydd heb fod ar gael i'r cyhoedd) ar gyfer unrhyw ddibenion ac eithrio hwnnw y'i datgelwyd ar ei gyfer, ac mae cyfyngiadau i atal yr awdurdod sy'n derbyn yr wybodaeth rhag datgelu mwy

- gwneir y datgeliad mewn cysylltiad ag ymchwiliad i drosedd neu â chynnal achos troseddol. Rhaid i'r awdurdod sy'n datgelu fod yn fodlon fod datgelu'n gymesur yn yr amgylchiadau. Dim ond ar gyfer diben penodol y datgelu y caiff y derbynnydd ddefnyddio'r wybodaeth

- gwneir y datgeliad i awdurdodau tramor yn unol â'r rheolau a amlinellir isod.

10.4 Cyn datgelu unrhyw wybodaeth yn un o'r adwyon hyn a ganiateir, rhaid i'r awdurdod datgelu ystyried y canlynol:

- a fyddai datgelu yn groes i fuddiannau'r cyhoedd

- a fyddai datgelu'n achosi niwed arwyddocaol i fuddiannau busnes (yn achos gwybodaeth fasnachol) neu unigolyn (yn achos gwybodaeth am faterion preifat). Os gallai'r datgeliad niweidio buddiannau busnes neu unigolyn, rhaid i'r awdurdod ystyried i ba raddau y mae datgelu'r wybodaeth honno yn angenrheidiol.

Datgelu i awdurdodau tramor

10.5 Sefydlir rheolau newydd hefyd ar gyfer datgelu gwybodaeth i awdurdodau tramor. Caniateir datgelu er mwyn hwyluso'r ymchwiliad a dwyn achosion troseddol yn gyffredinol neu achosion sifil sy'n ymwneud â deddfwriaeth arbennig benodedig ar gystadleuaeth neu gyfraith defnyddwyr. Serch hynny, y mae eithriadau, ac ni chaniateir datgelu tramor ar gyfer rhai mathau o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth a gafwyd dan ymchwiliadau cydsoddiad neu mewn perthynas â chyfeirio ymchwiliadau marchnad.

10.6 Ni cheir ond datgelu gwybodaeth i awdurdod tramor ar yr amod:

- na chaiff ei datgelu ymhellach heb gytundeb yr awdurdod sy'n datgelu'r wybodaeth, a

- nad yw'r awdurdod tramor yn ei defnyddio ar gyfer unrhyw ddiben ar wahân i hwnnw y'i datgelwyd ar ei gyfer.

At hynny, mae gan yr YG y pwer i atal datgelu i awdurdod tramor – lle y cred yr YG y byddai'n fwy priodol i unrhyw ymchwiliadau neu achosion gael eu cynnal yn y DU neu mewn gwlad arall.

10.7 Yn ogystal â'r ystyriaethau a ddisgrifir ym mharagraff 10.4 uchod, y mae ffactorau ychwanegol y mae'n rhaid eu hystyried cyn gwneud unrhyw ddatgeliad i awdurdod tramor, gan gynnwys:

- a yw'r mater yn ddigon difrifol i gyfiawnhau gwneud y datgeliad
- a ydyw cyfraith y wlad neu diriogaeth dramor yn darparu gwarchodaeth briodol ar gyfer storio a datgelu data personol, ac
- a ydyw cyfraith y wlad neu diriogaeth honno'n darparu gwarchodaeth briodol rhag hunan-argyhuddiad mewn achosion troseddol.

Troseddau datgelu

10.8 Mae'n drosedd datgelu gwybodaeth mewn amgylchiadau lle na chaniateir y cyfryw ddatgelu dan y rheolau hyn, lle mae'n mynd yn groes i gyfarwyddyd i beidio â gwneud hynny gan yr YG neu lle datgelir yr wybodaeth ar gyfer pwrpas nad yw wedi'i ganiatáu dan y Ddeddf. Mae cosbau'n cynnwys hyd at ddwy flynedd (ar dditiad) neu dri mis (ar euogfarn gan ynadon) o garchar a/neu ddirwy.

Gwybodaeth bellach

10.9 Gellir cael gwybodaeth bellach ar ddatgelu gwybodaeth yn y papur ymgynghorol, *The overseas disclosure of information*, OFT507, a gyhoeddwyd yn Ebrill 2003.

11 Apeliadau

Y Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth

11.1 Mae'r Ddeddf yn sefydlu'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth (TAC), sydd wedi cymryd lle tribiwnlysoedd apêl y CC (a adwaenid fel TACC). Mae'r TAC yn gwbl annibynnol ar y CC.

11.2 Mae'r TAC wedi ymgymryd â swyddogaeth y TACC o wrando ar apeliadau yn erbyn rhai penderfyniadau penodol gan y SMT neu reoleiddwyr sector dan DC98, gyda'r pwer, ymysg pethau eraill, i gadarnhau, rhoi heibio neu amrywio'r penderfyniad, neu anfon y mater yn ôl i'r SMT (neu'r rheoleiddiwr).

11.3 Dyma swyddogaethau newydd y TAC dan y Ddeddf:

- gwrando hawliadau am iawndal lle sefydlwyd y torrwyd y ddeddf ar gystadleuaeth (dan Benodau I neu II DC98 neu benderfyniadau'r DU dan Erthyglau 81 neu 82 yng Nghytundeb CE)

- gwrando hawliadau cynrychioliadol am iawndal, a ddygir gan gyrff penodedig ar ran grwpiau o ddefnyddwyr unigol a enwyd, yng nghyswllt achosion cydnabyddedig o dorri'r deddfau cystadleuaeth hynny, ac

- adolygu penderfyniadau ar gydsoddiadau neu ar gyfeirio ymchwiliadau marchnad, a wnaed gan y SMT, y CC, yr YG neu reoleiddwyr sector fel a ddisgrifir ym mharagraffau 4.15 a 5.12 uchod.

11.4 Bydd gan y TAC aelodau cyffredin, panel o gadeiryddion a Llywydd. Yr Arglwydd Ganghellor fydd yn penodi'r Llywydd a'r cadeiryddion. Yr YG fydd yn penodi'r aelodau cyffredin. Rhaid i'r tribiwnlys ar gyfer pob achos gynnwys cadeirydd (gall y Llywydd gadeirio) a dau aelod arall.

11.5 Mae'r YG wedi llunio Rheolau Tribiwnlys[5] ar gyfer achosion y TAC, gan gynnwys materion megis cyfyngiadau amser ar gyfer dwyn achos, y gallu i wrthod cynnal achos, dull cynnal gwrandawiadau, gorchmynion interim a thaliadau am ddwyn achosion.

11.6 Ariannir y TAC a chefnogi ei weinyddiad drwy gorff newydd o'r enw y Gwasanaeth Cystadleuaeth.

[5] Ar adeg ysgrifennu hyn mae Rheolau'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth ar http://www.dti.gov.uk/ccp/topics2/pdf2/catcon2.pdf

Penderfyniadau DC98– apeliadau gan drydydd partïon

11.7 Mae'r Ddeddf hefyd yn newid y drefn ar gyfer apeliadau gan drydydd partïon i rai penderfyniadau penodol a wnaed dan DC98. Nid oes newid yn y weithdrefn ar gyfer apeliadau gan bersonau yr oedd eu cytundeb neu eu hymddygiad yn destun penderfyniad. Mae'r mathau o benderfyniad y gellir apelio arnynt yn aros yn ddigyfnewid hefyd.

11.8 Gynt, dan yr hen drefn, roedd yn ofynnol i unrhyw drydydd parti a ddymunai apelio yn erbyn penderfyniad dan Bennod I neu Bennod II DC98 ysgrifennu'n gyntaf at Gyfarwyddwr Cyffredinol Masnachu Teg yn gofyn iddo dynnu ei benderfyniad yn ôl neu ei newid. Wedyn roedd hawl apelio i'r TACC yn erbyn penderfyniad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol i beidio â thynnu'n ôl na newid y penderfyniad gwreiddiol.

11.9 Mae'r Ddeddf yn newid DC98 fel y gall unrhyw berson apelio yn erbyn y mathau rhestredig o benderfyniad DC98 yn uniongyrchol i'r TAC, ar yr amod fod y TAC o'r farn fod gan y person ddigon o fudd yn y penderfyniad hwnnw. Diddymir yr angen am gais rhagarweiniol i'r SMT ar gyfer unrhyw benderfyniad a wnaed ar neu wedi 20 Mehefin 2003.

Hawliadau am iawndal a hawliadau cynrychioliadol

11.10 Mae'r Ddeddf yn galluogi dod â hawliadau am iawndal ger bron y TAC lle sefydlwyd eisoes fod cyfraith cystadleuaeth wedi'i thorri. Gall hawliadau am iawndal fod ar gael i bersonau sydd wedi dioddef colled neu niwed o ganlyniad i fathau arbennig o dorri cyfraith cystadleuaeth. Mae hyn yn ychwanegol at yr hawl sy'n bodoli i fynd i'r llysoedd gyda hawliadau am iawndal.

11.11 Gellir hawlio lle mae naill ai'r SMT neu'r Comisiwn Ewropeaidd wedi penderfynu y torrwyd:

- gwaharddiadau Pennod I DC98 neu Erthygl 81 Cytundeb CE ar gytundebau gwrthgystadleuol, neu
- gwaharddiadau Pennod II DC98 neu Erthygl 82 Cytundeb CE ar gamddefnyddio safle dominyddol.

11.12 Gellir hawlio hefyd lle mae'r TAC ei hun wedi sefydlu y torrwyd un o'r gwaharddiadau hyn o ganlyniad i apêl yn erbyn penderfyniad cynharach o eiddo'r SMT. Ni cheir gwneud hawliad am gyhyd ag y bo'r penderfyniad dan sylw'n dal i fod yn destun apêl.

11.13 Gall yr hawliadau hyn gael eu cyflwyno'n uniongyrchol gan y person a ddioddefodd golled oherwydd y trosedd. Hefyd, caniateir i gyrff a bennir gan yr YG ddod ag achosion cynrychioliadol ar ran defnyddwyr. Rhaid i'r defnyddwyr y gweithredir ar eu rhan fod yn unigolion, a rhaid iddynt beidio â bod yn derbyn y nwyddau neu wasanaethau dan sylw yng nghwrs eu busnes. Dyfernir iawndal yn uniongyrchol i'r defnyddwyr a gynrychiolir.

Ceisiadau am adolygiad

11.14 Bydd bron bob penderfyniad a wneir gan y SMT, y CC, yr YG neu reoleiddwyr sector mewn perthynas â'r trefniadau newydd ar gyfer cydsoddiadau[6] neu ymchwiliadau marchnad[7] yn amodol ar y posibilrwydd o adolygiad barnwrol gan y TAC. Ar gyfer yr adolygiadau hyn, nid oes gan y TAC hawl i newid y penderfyniad na rhoi ei benderfyniad ei hun yn ei le, ond gall ddileu'r penderfyniad ar sail annhegwch trefniadaethol, anghyfreithlondeb neu afresymoldeb. Yn y cyfryw amgylchiadau, gellir gofyn i'r corff perthnasol feddwl eto a gwneud penderfyniad o'r newydd.

11.15 Gellir gwneud cais am adolygiad gan unrhyw berson sy'n teimlo iddo gael cam gan y penderfyniad (neu fethiant i wneud penderfyniad), er y bydd y TAC yn gallu gwrthod achos os nad oes gan yr ymgeisydd fudd digonol yn y penderfyniad.

Apelio yn erbyn penderfyniadau cosb

11.16 Fel rhan o drefn cyfeirio cydsoddiadau ac ymchwiliadau marchnad, bydd gan y CC y pwer i roi cosbau am fethiant i ddarparu tystiolaeth (naill ai fel tyst neu ar ffurf dogfennau). Gellir apelio i'r TAC yn erbyn cosbau a roddir gan y CC. Ar gyfer yr apeliadau hyn, gall y TAC ddileu'r gosb neu roi swm arall yn ei lle neu ddyddiadau gwahanol ar gyfer talu.

[6] Gweler paragraff 4.15
[7] Gweler paragraff 5.12

12 Newidiadau i Ddeddf Cystadleuaeth 1998

12.1 Yn ogystal â'r newidiadau allweddol a amlinellir uchod, mae'r Ddeddf yn gwneud rhai newidiadau bach ond arwyddocaol i DC98, a ddaw i rym o 1 Ebrill 2003.

Diddymu'r eithriad i reolau proffesiynol

12.2 Mae'r Ddeddf yn diddymu Atodlen 4 i DC98. Roedd yr atodlen hon wedi eithrio rheolau proffesiynol dynodedig o'r gwaharddiad Pennod I ar gytundebau gwrth-gystadleuol. Bellach mae'n rhaid i'r rheolau hyn gydymffurfio â Phennod I DC98 yn yr un modd â phob cytundeb a phenderfyniad arall gan gymdeithasau.

Pwer i fynd i mewn i eiddo

12.3 Ers 1 Ebrill 2003, lle bo'r SMT wedi sicrhau gwarant i fynd i mewn i eiddo yng nghyswllt ymchwiliad DC98, gall y warant awdurdodi personau penodol i fynd gyda'r swyddog o'r SMT a enwir yn y warant. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi'r SMT i ddefnyddio pobl a chanddynt arbenigedd nad yw ar gael o fewn y SMT, er enghraifft arbenigwyr ar dechnoleg gwybodaeth. Bydd y bobl hyn yn cynorthwyo mewn chwiliadau lle bo angen er mwyn sicrhau y manteisir yn llawn ar delerau'r warant ac y ceir pob gwybodaeth sy'n berthnasol i ymchwiliad mewn modd effeithlon.

12.4 Mae'r Ddeddf yn cynnwys pwer cyfwerth i awdurdodi personau penodol i fynd gyda'r swyddog a enwyd o'r SMT mewn gwarantau chwilio a geir yng nghyswllt ymchwiliadau i'r trosedd cartél newydd.

Apelio yn erbyn penderfyniadau DC98

12.5 Mae paragraffau 11.7 i 11.9 uchod yn disgrifio'r newidiadau a wna'r Ddeddf i'r weithdrefn ar gyfer trydydd partïon sy'n apelio yn erbyn penderfyniadau dan DC98.

Gwybodaeth bellach

12.6 Mae'r SMT wedi cyhoeddi taflen *How will the Enterprise Act 2002 change the Competition Act 1998 regime?* OFT441 sy'n egluro sut y mae DC98 wedi newid o ganlyniad i'r Ddeddf Menter. Yn enwedig, noda'r daflen y newidiadau yn sgîl hynny i ganllawiau DC98, a ailgyhoeddir yn ddiweddarach yn 2003.

13 Rhestr o'r byrfoddau a ddefnyddir yn y canllawiau hyn

AMD	Adran Masnach a Diwydiant
CC	Comisiwn Cystadleuaeth
Cytundeb CE	Cytundeb Rhufain, yn sefydlu'r Gymuned Ewropeaidd, fel y'i cydgyfnerthwyd gan Gytundeb Amsterdam
DC98	Deddf Cystadleuaeth 1998
DMT73	Deddf Masnachu Teg 1973
GGC	Gorchymyn Gwahardd Cystadleuaeth
MMP	Adran Marchnadoedd a Mentrau Polisi'r SMT
RhGSN	Reoliadau Gorchmynion Stopiwch Nawr (Cyfarwyddeb CE) 2001
SMT	Swyddfa Masnachu Teg
TAC	Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth
TACC	Tribiwnlys Apeliadau'r Comisiwn Cystadleuaeth, sy'n peidio â bodoli dan y Ddeddf Menter
YG	Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant
YGC	Ymgymeriad Gwahardd Cystadleuaeth

Cyhoeddiadau'r Ddeddf Menter

Mae'r SMT wedi cyhoeddi cyfres o lyfrynnau canllawiau ar amryfal agweddau ar y Ddeddf, fel a restrir isod. Gellir lawrlwytho pob un ohonynt o wefan y SMT http://www.oft.gov.uk/enterpriseact.htm. Neu gallwch ofyn amdanynt drwy:

ffôn	0870 60 60 321
ffacs	0870 60 70 321
e-bost	oft@eclogistics.co.uk
post	EC Logistics, Swallowfield Way, Hayes, Middlesex UB3 1DQ

Efallai y cyhoeddir canllawiau newydd ac adolygu'r canllawiau presennol o bryd i'w gilydd. Am y rhestr ddiweddaraf o lyfrynnau canllawiau:

edrychwch yn www.oft.gov.uk/enterpriseact.htm
e-bostiwch enterpriseact.enquiries@oft.gsi.gov.uk
neu ffoniwch ddesg ymholiadau'r Ddeddf Menter ar 020 7211 8181.

Cyhoeddiadau Deddf Menter y SMT sydd ar gael ym Mehefin 2003:

Competition disqualification orders
OFT510 – canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Mai 2003
Market investigation references
OFT511 - canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2003
Enforcement of consumer protection legislation
OFT512 - canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2003
The cartel offence - no-action letters for individuals
OFT513 - canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2003
Super-complaints - guidance for designated consumer bodies
OFT504 – papur ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Awst 2002
Mergers - substantive assessment
OFT516 - canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Mai 2003
Mergers – procedural guidance
OFT526 - canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Mai 2003
Powers for investigating criminal cartels
OFT505 - papur ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2003
The overseas disclosure of information
OFT507 - papur ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2003
Practical Information
OFT530 – taflen yn crynhoi'r darpariaethau ar gyfer cystadleuaeth a defnyddwyr yn y Ddeddf Menter.
How will the Enterprise Act 2002 change the Competition Act 1998 regime?
OFT441 - taflen yn crynhoi'r newidiadau a gyhoeddwyd ym mis Mai 2003